Arholiadau
Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod
Prifysgol Aberystwyth
Chwefror 2025

Hanes – Y Byd

Amser: 1.5 awr (90 munud)

Atebwch UN Cwestiwn o Rhan A ac UN Cwestiwn o Rhan B

Rhan A

1. Pa heriau sy'n wynebu haneswyr wrth geisio deall profiadau menywod yn y gorffennol?
2. Sut mae ymchwilio i hanes pan nad oes unrhyw gofnodion ysgrifenedig?
3. Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r term 'hanes trawswladol'?
4. I ba raddau y gall haneswyr fod yn wrthrychol wrth astudio'r gorffennol?
5. A all haneswyr ddefnyddio tudalennau gwe fel ffynonellau gwreiddiol?
6. Ym mha ffordd mae hanes llafar wedi newid astudiaeth hanes?

Rhan B

Y cyfnod cyn-fodern a'r cyfnod modern cynnar

7. Ai cysyniad delfrydol oedd 'y cod sifalrig' yn Ewrop yn yr oesoedd canol neu a oedd yn seiliedig ar weithredoedd ar faes y frwydr a'r tu hwnt?
8. I ba raddau ydych chi'n cytuno mai arweinyddiaeth Siarlymaen oedd y prif reswm am lwyddiant ei ryfeloedd?
9. 'Cryfhawyd safle Alexios I fel Ymerawdwr Bysantiwm gan y Groesgad Gyntaf'. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad hwn?
10. Pa ffactorau a arweiniodd at Anrheithio Caergystennin yn rhan o'r Bedwaredd Groesgad yn 1204?
11. Rhowch asesiad o effaith ymosodiadau'r Mongoliaid ar y Gorllewin.
12. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod gan Tsieina fwy o ddylanwad na Phersia ar ddatblygiad diwylliannol yn yr Ymerodraeth Fongolaidd?
13. Pa effaith a gafodd y Pla Du ar Ewrop?
14. Ai ffenomen Eidalaidd yn unig oedd y Dadeni mewn gwirionedd?
15. Ym mha ffyrdd yr ymatebodd y bobl frodorol yng nghyfandiroedd America i ddyfodiad Ewropeaid ar ôl 1492?
16. I ba raddau oedd Martin Luther yn ffigwr modern?

17. A fyddech chi'n cytuno na fyddai Diwygiad Protestannaidd yn Ewrop oni bai am ddyfeisio'r wasg argraffu?
18. Sut y gwnaeth y trefedigaethau Sbaenaidd yn y Byd Newydd gyfrannu at gyfoethogi Spaen ac Ewrop. Dewiswch un o'r canlynol i'w drafod: Sbaen Newydd, Granada Newydd, Periw, Rio de la Plata
19. Pam y parhaoedd caethwasiaeth i ehangu yn yr Unol Daleithiau ar ôl y Chwyldro Americanaidd?

Y Cyfnod Modern

20. Ym mha ffyrdd y newidiwyd bywydau pobl gan y rheilffyrdd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg?
21. Trafodwch gyd-destun, proses ac effaith yr Ymgiprys am Affrica.
22. Beth yw pwysigrwydd byd-eang syniadau ac ideoleg y chwyldro yn Rwsia?
23. Beth oedd canlyniadau cytundeb Versailles ar ddatblygiad yr Almaen ar ôl y rhyfel?
24. A allwn ni ddweud bod y broses o ryddfreinio menywod yn y cyfnod rhwng y ddau Ryfel Byd yn un llwyddiannus?
25. Pam y galwyd y 1920au yn yr Unol Daleithiau yn Ddauddegau Gwyllt?
26. Ai dim ond yr argyfyngau economaidd a brofwyd yn ystod Gweriniaeth Weimar oedd yn gyfrifol am dwf y Natsïaid?
27. Pam y targedwyd y Cwlaciaid gan Gyfundrefn Stalin yn yr Undeb Sofietaidd?
28. Pa bryd y cychwynnodd yr Holocost?
29. Rhowch asesiad o arwyddocâd Gwarchae Berlin (1948-49) yn natblygiad y Rhyfel Oer.
30. I ba raddau oedd Martin Luther King, Jr. yn effeithiol fel arweinydd y Mudiad Hawliau Sifil Pobl Ddu yn y 1950au a'r 1960au?
31. Trafodwch y prif wahaniaethau rhwng Rhyfel Cyntaf Indo-Tsieina (1946-54) ac Ail Ryfel Indo-Tsieina (1955-75).
32. Beth oedd Argyfwng Taflegrau Ciwba a sut y cafodd ei ddatrys?
33. Ym mha ffyrdd oedd y Rhyfel Oer yn wrthdaro a gynhaliwyd yng ngwledydd y De Byd-eang?
34. I ba raddau y daeth yr Undeb Sofietaidd i ben o ganlyniad i bolisïau Glasnost a Perestroika Gorbachev.